**‘MAGIC’ O *STORM* GAN JUDITH WEIR**

CYNLLUN GWERSI I’R DOSBARTH CYNRADD gan Fran Hart

GWYLIO’R FFILM | GWRANDO AR Y SAIN

Ar gyfer:

- Cwricwlwm Cenedlaethol **LLOEGR** (CA2)
- Cwricwlwm i **GYMRU**: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)
- Cwricwlwm Rhagoriaeth **YR ALBAN** (Ail Lefel)
- Cwricwlwm Cynradd **GOGLEDD IWERDDON** (CA2)

*Cefndir*

**Y cyfansoddwr:** **JUDITH WEIR**
*Ynganiad:* *Wir*

- Mae’n fwyaf adnabyddus am ei cherddoriaeth ar gyfer opera a theatr – perfformir ei cherddoriaeth ar draws y byd.
- Meistr Cerddoriaeth y Brenin rhwng 2014 a 2024 (swydd bwysig a grëwyd yn ôl yn 1626 gan y Brenin Siarl I!) – mae hyn yn golygu bod Weir yn gweithio’n agos ar ddigwyddiadau brenhinol fel priodasau, jiwbilî a choroni.
- Cafodd ei magu yn Llundain, o deulu Albanaidd - mae ei cherddoriaeth yn tynnu ysbrydoliaeth o chwedlau gwerin yr Alban yn ogystal â straeon hŷn o’r cyfnod Canoloesol.

**Cerddoriaeth:** **‘MAGIC’ O *STORM***

- Mae’n defnyddio testun o ddrama enwog William Shakespeare *The Tempest,* gan dynnu ar y môr, gwynt, tonnau a’r awyr yn hytrach na chymeriadau penodol.
- Ensemble bach o ddim ond 9 chwaraewr, ynghyd â lleisiau benywaidd a chôr plant.
- Mae’r testun ar gyfer ‘Magic’ wedi’i ysgrifennu yn hoff arddull Shakespeare: y mesur pumban dyrchafedig (iambic pentameter) lle mae llinell destun wedi’i rhannu’n ddeg sillaf (acennog a diacen).

© BBC 2024

*Canlyniadau dysgu*

*Bydd dysgwyr yn:*

- Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth a glywir
- Archwilio gwybodaeth sy'n datblygu am gydrannau cerddorol trwy gyfansoddi cerddoriaeth i greu naws benodol
- Datblygu rheolaeth ar synau i'w chwarae/canu gyda mwy o fynegiant
- Defnyddio lleisiau'n greadigol
- Perfformio cyfansoddiad strwythuredig mewn ensemble

*Adnoddau sydd eu hangen:*

- Offerynnau traw a di-draw yr ystafell ddosbarth
- Pethau sydd ddim yn offerynnau, e.e. pren, cerrig, metel

*Rhestr wirio'r cwricwlwm*

**Cwricwlwm Cenedlaethol LLOEGR (CA2)**

- Gwrando gan roi sylw i fanylion a dwyn i gof synau gyda chof clust cynyddol
- Chwarae a pherfformio fel unawdydd ac mewn ensemble, gan ddefnyddio eu lleisiau a chwarae offerynnau cerdd gyda chywirdeb, rhuglder, rheolaeth a mynegiant cynyddol
- Byrfyfyrio a chyfansoddi cerddoriaeth at amrywiaeth o ddibenion gan ddefnyddio dimensiynau cydberthynol cerddoriaeth

**Cwricwlwm Rhagoriaeth YR ALBAN (Ail Lefel)**

- Cydnabod amrywiaeth o arddulliau cerddoriaeth a gallu enwi rhai o'r prif offerynnau a ddefnyddir yn, er enghraifft, cerddoriaeth glasurol, cerddoriaeth jazz, cerddoriaeth roc a phop
- Perfformio ar offerynnau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, i gyfleu naws a chymeriad darn o gerddoriaeth drwy, er enghraifft, defnyddio dynameg a mynegiant priodol
- Defnyddio llais, offerynnau a thechnoleg i greu cerddoriaeth, arbrofi gydag ansawdd, er enghraifft, defnyddio offerynnau taro traw/di-draw i greu alawon a rhythmau syml

**Cwricwlwm i GYMRU: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)**

- Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu gwahanol naws a syniadau, a'r effaith maen nhw'n ei chael ar gynulleidfa.
- Rwy'n gallu cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gyd-destun, a gwneud cysylltiadau rhwng fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith creadigol pobl eraill, ac o leoedd a chyfnodau gwahanol.
- Rwy'n gallu adnabod ac ymateb yn greadigol i heriau, a gwneud hyn gyda gwydnwch a hyblygrwydd

**Cwricwlwm Cynradd GOGLEDD IWERDDON (CA2)**

- Canu a pherfformio gydag offerynnau syml o'r cof, o'r glust neu o nodiant i ddatblygu sgiliau offerynnol lleisiol
- Gweithio'n greadigol gyda sain drwy greu straeon, lluniau, patrymau, sgyrsiau, a chyfeiliannau cerddorol, a thrwy ymchwilio i ffyrdd o gadw'r gerddoriaeth y maent wedi'i chreu

© BBC 2024

*Y gwersi yn gryno*

Mae'r cynllun gwaith hwn wedi'i drefnu dros bedair gwers. Mae croeso i chi ei addasu i weddu i'ch plant a'r amser/adnoddau sydd gennych ar gael.

Am arweiniad ar nodiant, gweler yma.

***GWERS 1:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gwrando ar y dyfyniad/gwylio'r ffilm, a gweld sut mae'r gerddoriaeth yn hudol<br>Archwilio offerynnau i greu awyrgylch hudolus, gan gynnwys llais, offerynnau traw a di-draw a gwrthrychau bob dydd. **Blwyddyn 5 a 6** – cordiau |
| Bwriad dysgu: | Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth a glywir<br>Archwilio gwybodaeth sy'n datblygu am gydrannau cerddorol trwy gyfansoddi cerddoriaeth i greu naws benodol |

***GWERS 2:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Archwilio mynegiant mewn cân adnabyddus<br>Cymhwyso'r technegau hyn i'r cyfansoddiad hudol i ddatblygu ei fynegiant, ee defnyddio dynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati. |
| Bwriad dysgu: | Datblygu rheolaeth ar synau i'w chwarae/canu gyda mwy o fynegiant |

***GWERS 3:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gwrando ar y dyfyniad/gwylio'r ffilm a nodi'r gwahanol ffyrdd mae'r geiriau'n cael eu canu<br>Archwilio'r technegau lleisiol hyn i greu mynegiant llawn dirgelwch gan ddefnyddio'r geiriau penodol |
| Bwriad dysgu: | Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth maen nhw'n ei chlywed<br>Archwilio gwybodaeth sy'n datblygu am gydrannau cerddorol trwy gyfansoddi cerddoriaeth i greu naws benodol<br>Defnyddio lleisiau'n greadigol |

***GWERS 4:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gan ddefnyddio'r gerddoriaeth hudol a gyfansoddwyd, a'r gerddoriaeth leisiol lawn dirgelwch, ymarfer a pherfformio perfformiad strwythuredig (**Blwyddyn 3 a 4** – rondo, **Blwyddyn 5 a 6** – ABA) |
| Bwriad dysgu: | Datblygu rheolaeth ar synau i'w chwarae/canu gyda mwy o fynegiant<br>Perfformio cyfansoddiad strwythuredig mewn ensemble |

© BBC 2024

# GWERS 1

*Bwriad dysgu*

- Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth a glywir
- Archwilio gwybodaeth sy'n datblygu am gydrannau cerddorol trwy gyfansoddi cerddoriaeth i greu naws benodol

## 1. CAM CYNTAF

Cyflwynwch grynodeb *The Tempest* gan Shakespeare. Mae Prospero yn defnyddio hud i greu storm. Mae hyn yn effeithio ar bobl ar ynys wedi llongddrylliad, gan gynnwys brawd Prospero. Mae Judith Weir wedi cyfansoddi 'Storm' mewn 5 symudiad sy'n cynrychioli'r stori hon mewn cerddoriaeth. Dyma'r pum symudiad:

1) Storm/Shipwreck 2) Charm 3) Magic 4) Spirit 5) Mercy

Gwyliwch neu gwrandewch ar 'Magic'.

## 2. GWEITHGAREDD

Trafodwch mewn parau sut mae'r gerddoriaeth yn creu awyrgylch hudolus. Rhannwch fel dosbarth.

Nodwch sut mae gwrthrychau bob dydd wedi'u defnyddio i greu rhai o'r synau, e.e. defnyddir cerrig ar y cychwyn cyntaf, chwiban dyfarnwr, a llen o fetel. Bydd hyn yn haws os yw'r myfyrwyr wedi gwylio'r ffilm. Holwch a wnaeth unrhyw un ddeall unrhyw eiriau.

Edrychwch ar y geiriau, a gymerwyd o ddrama Shakespeare, a nodi unrhyw gyfeiriadau at hud:

**William Shakespeare**
*The Tempest (Act V Scene 1)*

Ye elves of hills, lakes, standing lakes and groves,
And ye that on the sands with printless foot
Do chase the ebbing Neptune and do fly him
When he comes back; you demi-puppets that
By moonshine do the green sour ringlets make,
Whereof the ewe not bites; and you whose pastime
Is to make midnight mushrooms, that rejoice
To hear the solemn curfew…. I have bedimmed
The noontide sun…. graves at my command
Have waked their sleeper, opened, let them forth.

© BBC 2024

## 3. Y BRIF DASG

Mae Prospero ar fin gwneud swyn hud yn *The Tempest.* Yr her – mewn grwpiau, crëwch awyrgylch hudol gan ddefnyddio:

- Seiniau lleisiol
- Offerynnau di-draw
- Offerynnau traw
- Gwrthrychau bob dydd e.e. poteli dŵr, potiau, tybiau ac ati. *(**Blwyddyn 5 a 6** – defnyddiwch gytgordiau ac anghytgordiau)*

Dyma gwestiynau allweddol y gall grwpiau eu defnyddio i helpu eu cyfansoddiadau:

1) Sut fydd y cyfansoddiad yn dechrau?
2) Sut fydd y gerddoriaeth yn newid?
3) Sut fydd y darn yn gorffen?
4) Beth fydd pob chwaraewr yn ei wneud?
5) Sut fyddwn ni'n gwybod os ydyn ni wedi llwyddo?

Bydd y grwpiau'n archwilio synau a sut i'w chwarae i greu awyrgylch hudol. Anogwch nhw i fod yn greadigol gyda'u hofferynnau/ lleisiau a defnyddio dynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati, er mai dyma ffocws Gwers 2. Cofnodwch y cyfansoddiadau fel bod myfyrwyr yn gallu eu cofio.

## 4. SESIWN GLOI

Bydd y grwpiau'n rhannu eu cyfansoddiadau hyd yn hyn. Trafodwch pa mor llwyddiannus fu'r grŵp wrth greu awyrgylch hudolus, gydag awgrymiadau a sylwadau gan ddisgyblion eraill. A yw'r grŵp wedi defnyddio'r holl synau angenrheidiol?

## 5. CWIS DEWISOL

| | |
|---|---|
| **Beth yw cyfansoddi?** | Creu neu ysgrifennu cerddoriaeth wreiddiol |
| **Enwch offeryn traw yn yr ystafell ddosbarth** | Glockenspiel, seiloffon |
| **Enwch sain lleisiol** | Sibrwd, cliciau tafod, rapio |
| **Beth yw tempo?** | Cyflymder y gerddoriaeth |
| **Beth yw dynameg?** | Pa mor uchel neu dawel yw'r gerddoriaeth |

© BBC 2024

# GWERS 2

*Bwriad dysgu*

- Datblygu rheolaeth ar synau i chwarae/canu gyda mwy o fynegiant

1. **CAM CYNTAF**

Canwch gân adnabyddus, e.e. Gee Ceffyl Bach, Blaenau Ffestiniog, Fflat Huw Puw ac ati. Fe ddown ni'n ôl at hon yn nes ymlaen yn y wers.

2. **GWEITHGAREDD**

Gwyliwch neu gwrandewch ar 'Magic' gan Judith Weir eto. Trafodwch sut mae'r gerddoriaeth yn newid ac yn datblygu. Cwestiynau enghreifftiol:

- Defnyddiwch ddynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati i ddisgrifio'r agoriad
    - *e.e. tawel – piano / synau byr – pizzicato / gwead eithaf tenau / andante – cyflymder cerdded*
- Sut mae'r darn yn gorffen?
    - *Patrwm ffliwt ddisgynnol – graddfa, llen fetel neu ddalen taranau a llinynnau wedi'u chwarae ar y bont i gael effaith grafog arw*
- Ydi'r gerddoriaeth ar yr un ddynameg drwyddi?
    - *Na - mae'n dechrau'n dawel, ac mae 'na adrannau uwch a thawelach cyn uchafbwynt uchel dwy ran o dair i mewn, lle defnyddir y chwiban dyfarnwr. Mae'r ddynameg yn gostwng, ond mae'n uchel iawn erbyn y diwedd un*
- Ydi'r tempo yn newid?
    - *Na – mae 'na newidiadau rhythm/hyd, yn enwedig yn y ffliwtiau, ond mae'r curiad yn aros yr un fath*

3. **DYSGU**

Canwch y gân adnabyddus a ddewiswyd ar ddechrau'r wers, (e.e. Fflat Huw Puw neu Gee Ceffyl Bach), ond gwnewch newidiadau iddi e.e. ei chanu ar wahanol tempo (cyflymder), dynameg (pa mor uchel neu dawel), newid hyd y synau a defnyddio gwahanol 'leisiau', e.e. sibrwd, operataidd, mewn acen (ansawdd). A ellir ychwanegu unrhyw haenau i wneud gwead mwy trwchus?

Trafodwch effaith y newidiadau hyn ar naws y gân. Dyma beth yw **mynegiant – naws, teimlad, emosiynau neu awyrgylch** darn o gerddoriaeth. Tynnwch sylw at sut y gallai canwr ddangos mynegiant wrth ganu (e.e. gellir gwneud hyn gyda geirio a dynameg).

© BBC 2024

4. **Y BRIF DASG**

Cymhwyswch y ddealltwriaeth hon o fynegiant i'r gerddoriaeth hudol a grëwyd yng Ngwers 1. Adolygwch y dasg a osodwyd i greu awyrgylch hudol gan ddefnyddio:

- Offerynnau di-draw
- Offerynnau traw
- Gwrthrychau bob dydd (***Blwyddyn 5 a 6*** *– defnyddio cytgordiau ac anghytgordiau)*

Mae angen i grwpiau ddatblygu eu defnydd o ddynameg, tempo, ansawdd, gwead a hyd i wneud eu cyfansoddiadau'n fwy mynegiannol a hudol.

5. **SESIWN GLOI**

Rhannwch y cyfansoddiadau hudol eto. Dylai pob grŵp esbonio'r newidiadau maen nhw wedi'u gwneud i wneud eu cyfansoddiad yn fwy mynegiannol. Dylai aelodau eraill y dosbarth roi adborth i'r grŵp i ddweud pa mor llwyddiannus y buont wrth greu cerddoriaeth hudol mynegiannol.

6. **CWIS DEWISOL**

| | |
|---|---|
| **Enwch derm Eidaleg i ddisgrifio'r ddynameg** | Forte neu piano |
| **Beth yw *andante*?** | Cyflymder cerdded |
| **Beth yw mynegiant mewn cerddoriaeth?** | Naws, teimladau, emosiwn, awyrgylch |
| **Sut mae newid mynegiant?** | Newid y ddynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati. |
| **Beth yw pizzicato?** | Plycio'r llinynnau |
| **Enwch offeryn di-draw** | Triongl, drwm, maraca, bloc pren |

© BBC 2024

# GWERS 3

*Bwriad dysgu*

- Gwrando a myfyrio ar y gerddoriaeth maen nhw’n ei chlywed
- Archwilio gwybodaeth sy’n datblygu am gydrannau cerddorol trwy gyfansoddi cerddoriaeth i greu naws benodol
- Defnyddio lleisiau’n greadigol

1. **CAM CYNTAF**

Gwrandewch ar neu gwyliwch ‘Magic’ gan Judith Weir eto, gan ganolbwyntio ar y geiriau a sut maen nhw’n cael eu cyfuno â seiniau’r offerynnau.

Gwrandewch eto ar y bariau agoriadol a nodwch sut mae’r seiniau’n fyr (staccato) wrth i’r 3 sielo chwarae pizzicato.




Clywir hyn hefyd gyda’r lleisiau ym mariau 15-17 (0’25), 32-35 (0’55) a 39-43 (1’07).

Dyma fariau 15-17:




© BBC 2024

2. **GWEITHGAREDD**

Gwrandewch eto a gofynnwch i'r disgyblion nodi pryd y mae'r gerddoriaeth yn newid ei naws ac yn peidio â bod yn fyr a staccato. Ym mar 46 (1'19) mae hyn yn digwydd, lle mae'r gerddoriaeth wedi'i marcio fel *legato misterioso.* Gofynnwch i'r dosbarth – beth ydych chi'n meddwl ydi ystyr *legato misterioso*? Ateb: Yn llyfn a llawn dirgelwch.

3. **DYSGU**

Darllenwch gyda'ch gilydd:

*The noontide sun, called forth the mutinous winds,*
*And 'twixt the green sea and the azured vault*
*Set roaring war—to th' dread rattling thunder*
*Have I given fire, and rifted Jove's stout oak*

Rhan o araith Prospero yw hyn cyn i'w swyn gael ei chreu. Mae'r geiriau Shakespearaidd hyn mewn mesur pumban dyrchafedig. Felly mae 'na 10 sillaf fel arfer yn y llinell, a'r rheini mewn parau sy'n cynnwys sillaf ddiacen ac wedyn un acennog.

Darllenwch y geiriau eto, gan bwysleisio'r sillafau acennog.

Archwiliwch y geiriau, gan gopïo agoriad staccato *Storm* ac yna ailadrodd gyda synau legato.

Arbrofwch gyda newid hyd, tempo, dynameg, traw ac ansawdd y geiriau wrth iddyn nhw gael eu siarad.

Trafodwch sut mae newid dynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati yn creu naws wahanol o'r geiriau.

4. **Y BRIF DASG**

**Blwyddyn 3 a 4** – fel dosbarth

**Blwyddyn 5 a 6** – yn yr un grwpiau â Gwers 1 a 2

Naill ai paratowch berfformiad o eiriau Prospero (2 neu 4 llinell), gan greu awyrgylch llawn dirgelwch sy'n cyd-fynd â'r geiriau, neu ysgrifennwch 2 linell o swyn mewn pumban dyrchafedig. Yna bydd angen i'r geiriau hyn gael eu perfformio mewn ffordd lawn dirgelwch, gan ddefnyddio rhai o'r technegau a archwiliwyd, e.e. sibrwd synau byr, tawel, ac yna llefaru'n legato, ac yn uchel. Gallwch ganu'r geiriau hefyd yn hytrach na'u siarad.

© BBC 2024

5. **SESIWN GLOI**

Rhannwch y geiriau sydd wedi'u hymarfer hyd yn hyn. Pa dechnegau sydd wedi cael eu defnyddio i greu awyrgylch llawn dirgelwch? Ydyn nhw'n swnio fel swyn? Oes yna awgrymiadau ar sut y gellid gwneud gwelliannau?

6. **CWIS DEWISOL**

| | |
|---|---|
| **Beth ydi ystyr stacato: hir neu fyr?** | Byr |
| **Beth ydi'r term Eidaleg am blycio tannau?** | Pizzicato |
| **Beth ydi ystyr legato?** | Hir, llyfn |
| **Beth ydi hyd?** | Pa mor hir yw synau – rhythm |
| **Beth ydi ystyr 'forte'?** | Uchel, cryf |

© BBC 2024

# GWERS 4

*Bwriad dysgu*

- Datblygu rheolaeth ar synau i'w chwarae/canu gyda mwy o fynegiant
- Perfformio cyfansoddiad strwythuredig mewn ensemble

1. **CAM CYNTAF**

Canwch gân adnabyddus a nodi sut mae'n cael ei strwythuro. Er enghraifft, rhagarweiniad, pennill, cytgan, pennill, cytgan, diweddglo.

Beth yw strwythur? Dyma'r ffordd y mae'r gerddoriaeth wedi'i mapio neu ei chynllunio.

2. **Y BRIF DASG**

**Blwyddyn 3 a 4** – dylai'r dosbarth cyfan ymarfer y geiriau, gan adolygu sut y caiff y rhain eu perfformio i greu awyrgylch llawn dirgelwch ar gyfer gwneud swyn. Dylai grwpiau ymarfer eu cerddoriaeth hudol hefyd. Bydd angen i'r dosbarth ymarfer y cyfansoddiad cyfan, gan drefnu eu cerddoriaeth ar ffurf rondo:

Adran A – geiriau'r dosbarth cyfan
B – cerddoriaeth hudol grŵp
A
C – cerddoriaeth hudol grŵp arall
A
D ac ati.

Cwestiynau i'w gofyn:

- Ydi pawb yn glir ynghylch pryd y maen nhw i fod i chwarae?
- Oes angen arweinydd i bwyntio at grwpiau neu at siart neu i helpu?
- Oes angen unrhyw welliannau cyn y perfformiad terfynol?
- Ydi pawb yn cofio sut i reoli'r synau er mwyn sicrhau bod y gerddoriaeth yn fynegiannol?

**Blwyddyn 5 a 6:** Cyflwynwch y ffurf deiran, sef cerddoriaeth mewn 3 adran lle mae'r drydedd adran yn ailadrodd y gyntaf, h.y., ABA, lle mae A a B yn gyferbyniol/ wahanol.

Adran A – cerddoriaeth hudol
Adran B – geiriau swyn llawn dirgelwch

Bydd angen i'r grwpiau ymarfer eu cerddoriaeth hudol a'u geiriau swyn ar wahân cyn eu hymarfer yn y strwythur ABA.

© BBC 2024

Rhaid i grwpiau ofyn i'w hunain:

- Ydi'r ddwy adran yn wahanol?
- Ydi'r gerddoriaeth yn llifo o A i B, yna yn ôl i A?
- Ydi'r cerddorion i gyd yn glir ynghylch beth maen nhw'n ei wneud ym mhob adran?
- Oes angen arweinydd neu flaenwr i helpu'r grŵp?
- Oes angen unrhyw welliannau cyn y perfformiad terfynol?
- Ydi pawb yn cofio sut i reoli'r synau i sicrhau bod y gerddoriaeth yn fynegiannol?

3. **SESIWN GLOI**

Perfformio a recordio'r cyfansoddiadau.

4. **GWERTHUSO**

- Pa mor fynegiannol oedd y gerddoriaeth?
- Pa mor llwyddiannus gafodd awyrgylch hudolus ei greu?
- Beth ellid ei wella ymhellach?
- Beth ydym ni wedi ei ddysgu?

5. **CWIS DEWISOL**

| | |
|---|---|
| **Beth yw perfformiad?** | Rhannu gwaith â chynulleidfa |
| **Beth yw mynegiant?** | Awyrgylch, naws, emosiynau |
| **Beth yw strwythur?** | Y ffordd mae'r gerddoriaeth wedi'i mapio allan |
| **Beth yw arweinydd?** | Rhywun sy'n rheoli'r gerddoriaeth |
| **Sut mae newid mynegiant?** | Newid y dynameg, tempo, gwead, ansawdd ac ati. |

© BBC 2024

## CAMAU PELLACH

Gweithgareddau trawsgwricwlaidd

- **CERDDORIAETH:** Gwrandewch ar gerddoriaeth arall sy'n creu awyrgylch hudolus, e.e. *Night on the Bare Mountain* Mussorgsky. Cymharwch y gerddoriaeth â *Magic.*
- **SAESNEG:** Archwiliwch y mesur pumban dyrchafedig (iambic pentameter) ymhellach. Datblygwch hyn wrth ysgrifennu barddoniaeth neu ddrama i'w pherfformio fel dosbarth yn y gwasanaeth (gellid gwneud hyn ochr yn ochr â'r cyfansoddiad o'r uned hon).
- **YMCHWIL:** Dysgwch fwy am Shakespeare – ei ddramâu a'i fywyd. Sut a pham mae wedi dod yn gymaint o ddylanwad ar awduron a dramodwyr? Cynhwyswch wybodaeth am Theatr y Globe a bywyd yn oes Shakespeare.

## GEIRFA'R TERMAU CERDDOROL A DDEFNYDDIR

| TERM | DIFFINIAD |
|---|---|
| Anghytgordiau | Cordiau anghyffyrddus o ran sain, nodau'n gwrthdaro |
| Andante | Term Eidaleg sy'n golygu cyflymder cerdded |
| Cordiau | Dau neu fwy o nodau wedi'u chwarae ar yr un pryd |
| Cyfansoddi | Creu cerddoriaeth wreiddiol |
| Cytgordiau | Cordiau cyfforddus o ran sain (mwyaf neu leiaf) |
| Dynameg | Pa mor uchel neu dawel y dylid chwarae darn o gerddoriaeth |
| Forte | Chwarae â dynameg uchel |
| Gwead | Sut rydyn ni'n cyfuno, cymysgu a haenu synau (pa mor 'drwchus' neu 'denau' yw'r gerddoriaeth, e.e. faint o offerynnau sy'n chwarae, sut maen nhw'n cael eu chwarae ac ati.) |
| Legato | Synau llyfn |
| Mynegiant | Naws, teimlad, emosiwn neu awyrgylch a grëir gan y gerddoriaeth |
| Offerynnau di-draw | Offerynnau heb wahanol drawiau sain, na ellir eu defnyddio i chwarae alaw, e.e. triongl |
| Offerynnau traw | Offerynnau â gwahanol drawiau, y gellir eu defnyddio i chwarae alaw neu dôn, e.e. glockenspiel |
| Piano | Chwarae â dynameg dawel |
| Rondo | Adran A yw'r rhan gyntaf, ac yna Adran B, adran newydd. Wedyn caiff A ei hailadrodd cyn chwarae Adran C newydd. Gall hyn ehangu, e.e. ABACADAEA |
| Ansawdd | Ansawdd sain penodol offeryn cerddorol (e.e. bydd gan eich llais ansawdd gwahanol i ffliwt) |
| Staccato | Seiniau byr, datgysylltiedig |
| Strwythur | Trefn y gwahanol adrannau sy'n ffurfio darn o gerddoriaeth, e.e. rhagymadrodd, pennill, cytgan, diweddglo |
| Symudiad | Strwythur a ddefnyddir i rannu cyfansoddiad cerddorol hirach e.e. gall symffoni fod yn dri neu bedwar symudiad |
| Teiran | Strwythur tair rhan, ABA, lle mae A a B yn adrannau gwrthgyferbyniol |
| Tempo | Cyflymder y gerddoriaeth |

© BBC 2024